# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 3 Ebrill 2014** |
| Amser: | **09.00 – 15.20** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200001_03_04_2014&t=6496&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200001_03_04_2014&t=6496&l=cy)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**William Graham AC (Cadeirydd)**
**Keith Davies AC**
**Dafydd Elis-Thomas AC**
**Rhun ap Iorwerth AC**
**Julie James AC**
**Ann Jones AC**
**Eluned Parrott AC**
**Joyce Watson AC**

Tystion:

**Carwyn Jones AC, Prif Weinidog**
**Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Minister for Economy, Science and Transport**
**Matthew Brown, Communities Investment Fund Manager, WCVA**
**Professor Andrew Davies, Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru**
**Gary Davies, Llywodraeth Cymru**
**Phil Fiander, Director of Programmes, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
**James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru**
**Yr Athro Colin Riordan, Prifysgol Caerdydd**
**Anne-Marie Rogan, YMCA Abertawe**
**Derek Walker, Canolfan Cydweithredol Cymru**

| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)**<br>**Claire Morris (Ail Clerc)**<br>**Olga Lewis (Dirprwy Glerc)**<br>**Ben Stokes (Ymchwilydd)** |
|---|---|

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan David Rees AC, Byron Davies AC a Mick Antoniw AC. Dirprwyodd Ann Jones AC ar ran Mick Antoniw AC.

## 2 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020 (sesiwn 11) (09.15-09.45)

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Colin Riordan, Llywydd ac Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd.

## 3 Mentrau Cymdeithasol (10.00-11.00)

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Phil Fiander, Cyfarwyddwr Rhaglenni, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Matthew Brown, Rheolwr Buddsoddi mewn Cymunedau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; ac Anne-Marie Rogan, Prif Weithredwr YMCA Abertawe.

## 4 Mentrau Cymdeithasol (11.00-12.00)

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru; Yr Athro Andrew Davies, Cadeirydd Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru; a Derek Walker, Prif Swyddog Gweithredol Canolfan Cydweithredol Cymru.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu dangosyddion perfformiad ar gyfer cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mentrau cymdeithasol yn ei diweddariad chwe misol i'r Pwyllgor.

## 5 Ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi (14.00-15.00)

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru. Cawsant eu cefnogi gan James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru a Gary Davies, Pennaeth yr Is-adran Materion Allanol, Llywodraeth Cymru Ewrop a.

5.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

- Nodyn ar gyfanswm nifer staff UKTI sydd wedi'u lleoli'n barhaol yng Nghymru a sut mae'r niferoedd hyn yn cymharu â'r sefyllfa yn yr Alban;

- Nodyn ar y gyfran o gwmnïau o dramor sy'n gweithredu yng Nghymru ac sy'n derbyn cymorth ôl-ofal uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, o gymharu â'r rhai sy'n cael cefnogaeth gan UKTI. Hefyd, syniad o'r cwmnïau hynny y mae'r Llywodraeth mewn cysylltiad â hwy yn rheolaidd, h.y. o leiaf unwaith bob chwe mis, a'r rhai y mae'n cysylltu â hwy yn llai rheolaidd;

- Nodyn ar ddull gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru o ran cofnodi a chyhoeddi ffigurau mewnfuddsoddi yng ngoleuni newidiadau yn y diffiniad a ddefnyddir gan UKTI (h.y. 10 y cant perchnogaeth dramor, yn hytrach na 50 y cant) a sut mae'r trothwy ar gyfer canran perchnogaeth dramor a ddefnyddir gan UKTI yn cymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill.

## 6 Papurau i'w nodi

6.1 Nododd y Pwyllgor y dogfennau ategol a ganlyn:

Papur preifat (rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Strategaeth Technoleg)

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Ystyried yr opsiynau ar gyfer ymweliad fel rhan o'r ymchwiliad i dwristiaeth, sgwrs gwe gyda myfyrwyr addysg bellach ac uwch a sgwrs gwe ar faterion yn ymwneud â'r rhywiau a phynciau STEM.